Hawdd ei Ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

AMGUEDDFA CYMRU

# Cyngor Celfyddydau Cymru

# Rhaglen Safbwyntiau

## Gwybodaeth i sefydliadau celfyddydol gweledol am y rhaglen Safbwyntiau



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Safbwyntiau: Dod â'n straeon at ei gilydd.**'

**Chwefror 2023**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 27**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni

**Ffôn:** 03301 242733

**E-bost:** grantiau@celf.cymru

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif Trwydded Photosymbols 403527247.**

# Cynnwys

**Tudalen**


**Cyflwyniad........................................................................................4**

**Sut y bydd yn gweithio...........................................................................7**

Ynglŷn â'r gweithwyr proffesiynol creadigol......................9

**Beth fydd y rhaglen yn ei wneud...........................................12**

**Beth fydd y cymorth ariannol..................................................14**

**Pwy sydd yn gallu gwneud cais. ............................................16**

**Sut fyddwn ni'n dewis pwy sydd yn gallu cymryd rhan.....17**

**Sut i wneud cais......................................................................19**

**Sut i gysylltu â ni....................................................................26**


**Geiriau  anodd.........................................................................27**

# Cyflwyniad



Mae **safbwyntiau** yn enw ar raglen newydd sy'n cael ei rhedeg gan:


- **Cyngor Celfyddydau Cymru**
- ac  Amgueddfa Cymru




Nod **Safbwyntiau** ydy gwneud yn siŵr bod ein pobl a'n **diwylliant amrywiol** yng Nghymru yn cael eu dangos a'u dathlu.



Mae **amrywiol** yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft mae pobl yng Nghymru yn dod o gefndiroedd a **diwylliannau** gwahanol. Mae ganddyn nhw wahanol alluoedd ac maen nhw'n credu pethau gwahanol.



Mae **diwylliant** yn meddwl syniadau, credoau ac ymddygiadau sy'n cael eu rhannu gan grŵp o bobl.  Mae diwylliant yn bethau fel hanes, celfyddydau, a thraddodiadau.

Fe fydd **safbwyntiau** yn gwneud yn siŵr bod ein **diwylliant amrywiol** yn cael ei ddangos a'i ddathlu drwy ein:



- **sector celfyddydau gweledol**. Dyma'r bobl a'r lleoedd sy'n dangos ac yn creu celf rydych chi'n ei fwynhau drwy edrych arno. Fel paentio, lluniau, cerflunwaith, ffilmiau



- **a'r sector treftadaeth**. Dyma bethau fel amgueddfeydd, casgliadau, adeiladau a digwyddiadau sy'n dathlu ein hanes.



Rydyn ni eisiau i **sefydliadau celfyddydol gweledol** sydd wedi eu lleoli yng Nghymru wneud cais i fod yn rhan o'r rhaglen yma.




**Fe fydd angen i chi wneud cais erbyn 5pm dydd Mercher 8 Mawrth 2023.**




Mae **safbwyntiau** yn rhaglen 2 flynedd.

Fe fydd yn ein helpu i weithio tuag at ein nodau yn ein **Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltu**. arts.wales/EngagementEasyReadWelsh.pdf

Fe fydd hefyd yn helpu Llywodraeth Cymru i weithio tuag at ei nodau yn eu Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol. www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol

# Sut y bydd yn gweithio



1. Fe fyddwn ni’n dewis **7 sefydliad celfyddydol gweledol** i fod yn rhan o **Safbwyntiau**.



2. Fe fyddwn ni’n paru’r sefydliadau celfyddydol gweledol gyda **7 o amgueddfeydd Amgueddfa Cymru** ar draws Cymru.

   Rydych chi’n gallu dysgu mwy am y 7 amgueddfa yma: https://amgueddfa.cymru



3. Gyda’i gilydd fe fyddan nhw’n dod o hyd i **weithiwr proffesiynol creadigol** i weithio gyda nhw.

> Mae **gweithwyr proffesiynol creadigol** yn gweithio yn y celfyddydau. Maen nhw’n gallu bod yn artistiaid, yn wneuthurwyr, yn awduron neu’n guraduron.



Y sefydliadau celfyddydol gweledol fydd yn gyfrifol am reoli a thalu’r **gweithiwr proffesiynol creadigol**.



4. Dros 2 flynedd fe fyddan nhw'n dod o hyd i ffyrdd newydd o gynrychioli grwpiau **amrywiol** yng Nghymru. Fe fyddan nhw yn dangos gwaith celf newydd ac yn cynnal digwyddiadau ac arddangosfeydd cyhoeddus.



5. Fe fydd 4 digwyddiad rhwydweithio yn ystod y prosiect. Fe fydd g**weithwyr proffesiynol creadigol**, y s**efydliadau celfyddydau gweledol** ac amgueddfeydd yn cymryd rhan. Mae grwpiau a sefydliadau eraill sydd â diddordeb yn gallu cymryd rhan hefyd.



6. Fe fydd **Cyngor Celfyddydau Cymru** ac **Amgueddfa Cymru** yn cadw llygad ar y gwaith drwy gydol y rhaglen. Fe fyddwn ni yn rhannu beth rydyn ni'n ddysgu.

# Ynglŷn â'r gweithwyr proffesiynol creadigol



Rhaid i **weithwyr proffesiynol creadigol** fod yn gweithio yn y celfyddydau gweledol.  Ac mae'n rhaid iddyn nhw fod wedi eu lleoli yng Nghymru.



Rhaid i'r sefydliadau celfyddydol gweledol ac amgueddfeydd weithio gyda **gweithwyr creadigol proffesiynol** sy'n nodi eu bod **yn amrywiol yn ddiwylliannol ac yn ethnig**.

**Mae hyn yn meddwl:**



- Unrhyw un o gymunedau Affricanaidd, Asiaidd, Caribïaidd, Sbaenaidd, Latino, Dwyrain Ewrop, neu'r Dwyrain Canol yng Nghymru.



- Unrhyw un sy'n gweld eu hunain yn dod o grŵp ethnig sydd nid yn Wyn yn unig.



- Unrhyw un o Gymunedau Sipsiwn, Roma, a Theithwyr.

Rydyn ni hefyd eisiau cefnogi pobl sydd yn gallu wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan oherwydd pwy ydyn nhw neu o lle maen nhw'n dod.  Er enghraifft:



- Pobl fyddar a phobl gyda cholled clyw.

- Pobl anabl.



- Pobl niwroamrywiol - pobl y mae eu meddyliau'n gweithio mewn ffyrdd gwahanol.

- Pobl sydd wedi wynebu **hiliaeth** neu **wahaniaethu**.



Mae **hiliaeth** yn meddwl trin pobl yn annheg neu yn gas oherwydd eu bod yn perthyn i hil arbennig - er enghraifft Du ac Asiaidd.



**Gwahaniaethu** ydy pan fyddwch chi yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

**Rydyn ni eisiau  i weithwyr proffesiynol creadigol:**



- Cwestiynu ffyrdd mae sefydliadau celfyddydol yn meddwl ar hyn o bryd.



- Gweithio gyda grwpiau cymunedol i gasglu barn a straeon.



- Gweithio i wneud newid cadarnhaol yn y gymuned a sefydliadau celfyddydol.

# Beth fydd y rhaglen yn ei wneud

**Fe fydd safbwyntiau yn:**



- Darganfod ffordd i  gydweithio er mwyn dangos darlun cywir o Gymru.



- Darganfod gwaith creadigol newydd y bydd pobl yn ei fwynhau, ac a fydd yn eu herio.



- Darparu arian a chyfle i **weithwyr proffesiynol creadigol** o  gefndiroedd amrywiol weithio i'n hamgueddfeydd a'n sector celfyddydau gweledol.



- Meddwl am farn, profiadau, a straeon pobl o gymunedau **amrywiol**.



- Rhoi amser a gofod i artistiaid, sefydliadau, a chymunedau i wneud i newid ddigwydd. A chynnig syniadau a ffyrdd newydd o weithio.



- Gwneud newidiadau i'r ffyrdd rydyn ni'n gweithio er mwyn:

  - i bobl allu creu

  - i bobl allu mwynhau'r celfyddydau, casgliadau a gofodau

  - rhoi grym i gymunedau.



- Rhannu beth rydyn ni'n ei ddysgu fel bod sefydliadau eraill yn gallu gweithredu i wneud i newid ddigwydd.

# Beth fydd y cymorth ariannol



Fe fydd £60 mil o bunnau yn cael ei gynnig i'r sefydliadau celfyddydol gweledol. Bydd hyn am gyfnod o 2 flynedd rhwng Ebrill 2023 ac Ebrill 2025.

**Fe fydd y £60 mil yn cael ei rannu:**



- £25 mil o bunnau i dalu'r **gweithiwyr proffesiynol creadigol** am tua 100 diwrnod.



- £35 mil o bunnau i'w wario ar bethau fel deunyddiau, gwneud celf, cael y cyhoedd i gymryd rhan a dangos diddordeb ac arddangos y gwaith.



Fe fydd gan Amgueddfa Cymru arian ar wahân i gynnal digwyddiadau ac arddangosiadau a chefnogi gwaith **gweithwyr creadigol proffesiynol** yn safleoedd  yr amgueddfa.



Mae arian ychwanegol ar gael hefyd ar gyfer pobl sydd ag **anghenion mynediad**. Mae hyn yn meddwl bod angen cefnogaeth ychwanegol arnoch chi i allu cymryd rhan. Mae hyn yn gallu talu am bethau fel:

- cymorth gan gynorthwy-ydd personol
- cyfrifoldebau gofalu
- cyfieithwyr
- Meddalwedd arbennig i helpu i ddarllen gwybodaeth ar-lein.



Dydy’r gronfa  yma ddim yn talu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod y prosiect.

# Pwy sydd yn gallu gwneud cais



**Sefydliadau celfyddydol gweledol** sy'n gweithio ac wedi eu lleoli yng Nghymru.




**Fe ddylech chi:**

- Cael o leiaf 3 blynedd o brofiad o weithio gyda **gweithwyr creadigol proffesiynol** a chyflwyno'r celfyddydau gweledol yng Nghymru.



- Fe fyddwch mewn sefyllfa i elwa'n fawr o gymryd rhan yn y rhaglen yma.



- Dangos inni eich bod yn teimlo'n gryf am weithio mewn partneriaeth.



- Bod â rheswm clir dros fod eisiau cymryd rhan.



**Does dim rhaid i chi fod yn oriel i gymryd rhan.**

# Sut y byddwn ni'n dewis pwy sy'n gallu cymryd rhan

**Fe fyddwn ni yn edrych ar:**




- Pa mor dda mae eich cais yn bodloni nodau'r rhaglen yma.



- Eich rheswm dros fod eisiau cymryd rhan.



- Eich profiad blaenorol yn y celfyddydau a gweithio gyda chymunedau.



- Eich gallu i gymryd rhan a grymuso pobl i wneud i newid ddigwydd.



- Eich gallu i wneud yr hyn rydych chi yn ei ddweud y byddwch chi yn ei wneud yn yr amser sy'n cael ei roi.



Fe fyddwn ni hefyd yn ceisio cael cymysgedd da o **sefydliadau celfyddydol gweledol**. O wahanol rannau o Gymru, gyda phrofiadau gwahanol.

# Sut i wneud cais




**Gwnewch gais erbyn 5pm ddydd Mercher 8 Mawrth 2023.**




1. **Mae angen i chi ddefnyddio ein porth ar-lein i wneud cais.**

   Os nad ydych wedi cofrestru ar y porth yn barod, fe fydd angen i chi gofrestru. Rydych chi'n gallu darganfod sut i wneud hyn yma:

   https://portal.arts.wales/




2. **Llenwch y ffurflen gais Safbwyntiau. Mae yna ganllaw ar gyfer sut i wneud hyn ar-lein.**



3. **Rhaid i chi uwchlwytho eich cais fel deunydd ychwanegol.**

   Does dim angen i chi ddisgrifio eich prosiect ar gyfer y cais yma. Rydyn ni yn disgwyl i chi wneud hyn gyda'r **gweithiwr proffesiynol creadigol** rydych chi'n ei ddewis yn nes ymlaen.

**Fe ddylai eich cais gynnwys:**

### a. Pam rydych chi'n gwneud cais am Safbwyntiau:



- Pam rydych chi eisiau cymryd rhan?
- Beth ydych chi'n gobeithio ei ennill?
- Pam mai dyma'r amser iawn i'ch sefydliad wneud hyn?
- Dywedwch os oes gennych chi amgueddfa yr hoffech chi weithio gyda hi yn benodol.

### b. Gwybodaeth am eich sefydliad




- Dywedwch wrthyn ni am eich profiad yn y celfyddydau gweledol
- Rydych chi'n gallu rhoi enghraifft inni o'ch gwaith ar brosiectau gwrth-hiliol. Neu prosiectau yn gweithio gyda phobl a grwpiau cymunedol



- Fe ddylech chi gynnwys hyd at 4 enghraifft o'ch gwaith drwy ddelweddau, dolen i'ch gwefan neu sioe go iawn. Ni ddylai rholiau ffilm fod yn hirach na 3 munud o hyd. Fe ddylen nhw fod ar-lein, fel ar Vimeo neu YouTube.

**c. Dywedwch wrthyn ni am eich gallu i wneud y gwaith hwn.**



- Sut fyddech chi'n cefnogi'r gweithiwr proffesiynol creadigol a'u gwaith yn y gymuned?
- Pwy o'ch sefydliad chi fydd yn arwain ar y gwaith hwn? Pa brofiad sydd ganddyn nhw?
- Sut fydd y prosiect yma yn eich helpu chi gyda'ch gwaith arferol? Nawr ac yn y dyfodol?




**d. Cyllideb fras yn egluro sut rydych chi'n disgwyl defnyddio'r arian grant.**

Defnyddiwch y templed cyllideb ar gyfer hyn. Rydych chi'n gallu ei lawrlwytho o'n gwefan yma.




**Rydych chi'n gallu gwario rhan o'r £35 mil o bunnau o'r gyllideb ar bethau fel:**



- Ffioedd staff eraill sy'n helpu i wneud y gwaith. Er enghraifft, artistiaid, aelodau o'r gymuned, haneswyr a grwpiau **eiriolaeth**.

> **Eiriolaeth** yw pan fydd rhywun yn eich helpu ac yn siarad ar eich rhan i ddweud beth rydych am ei ddweud. A gwneud i bethau ddigwydd.



- Siarad â'r gymuned – drwy ddigwyddiadau, neu arolygon neu weithgareddau eraill.




- Pethau fel teithio a bwyd a diod i weithwyr proffesiynol creadigol.

- Deunyddiau ar gyfer digwyddiadau, arddangosfeydd neu berfformiadau.



- Costau gweinyddu.

- Marchnata.



Defnyddiwch 4 ochr papur A4 ar y mwyaf i roi'r wybodaeth yma inni.



Fe ddylai testun fod yn 12pt neu fwy.



Ddylai ffeiliau ddim bod yn fwy na 250mb.




Fe ddylid darparu ffeiliau fideo a sain fel dolenni. Naill ai i'ch gwefan neu i rywbeth fel YouTube neu Vimeo. Cofiwch anfon cyfrineiriau inni os oes eu hangen.



4. **Fe fyddwn ni yn dweud wrthych chi pan rydyn ni wedi derbyn eich cais. Os ydych chi'n gallu cymryd rhan yn y project yma fe fyddwn ni yn asesu eich cais.**



Fe fydd panel o bobl o Gyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru ac aelodau eraill sydd wedi cael eu gwahodd yn gwneud hyn.




5. **Os ydych chi yn llwyddiannus fe fyddwn ni yn anfon ffurflen Derbyn Gwobrau i chi.**



Os nad ydych chi wedi bod yn llwyddiannus, fe fyddwn ni yn ysgrifennu atoch chi i ddweud pam.




6. **Pan fyddwch chi wedi llofnodi ac anfon eich ffurflen Derbyn Gwobrau yn ôl, fe fyddwn ni yn edrych ar eich manylion.**




Fe fyddwn ni yn anfon hanner yr arian i chi i ddechrau arni.



Yna fe fyddwn ni yn rhoi chwarter yr arian i chi yn ystod y prosiect.



Fe fyddwn  ni yn talu’r swm olaf ar ddiwedd eich prosiect.




**Fe fyddwn ni yn dweud wrthych chi os ydych chi wedi bod yn llwyddiannus ai peidio yn ystod yr wythnos sy’n dechrau ar 20 Mawrth 2023.**

# Sut i gysylltu gyda ni



Cysylltwch â'n **Tîm Grantiau a Gwybodaeth** os oes angen i chi siarad am:

- anghenion mynediad
- gweld os ydych chi yn gallu gwneud cais am Safbwyntiau
- neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am Safbwyntiau.

**Rydych chi'n gallu gwneud hyn drwy:**



**E-bost**: grantiau@celf.cymru

**Gwefan**: arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni

**Twitter**: Anfonwch neges drydar @Arts_Wales_



**Ffôn**: 03301 242733

Rydych chi'n gallu ffonio rhwng 9.00am a 5.00pm o ddydd Llun i ddydd Iau

A rhwng 9.00am a 4.30pm ar ddydd Gwener

# Geiriau Anodd

### Amrywiol

Mae amrywiol yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft mae pobl yng Nghymru yn dod o gefndiroedd a diwylliannau gwahanol. Mae ganddyn nhw wahanol alluoedd ac maen nhw'n credu pethau gwahanol.

### Diwylliant

Mae diwylliant yn meddwl syniadau, credoau ac ymddygiadau sydd yn cael eu rhannu gan grŵp o bobl. Mae diwylliant yn bethau fel hanes, celfyddydau, a thraddodiadau.

### Gwahaniaethu

Gwahaniaethu ydy pan fyddwch chi yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

### Gweithwyr proffesiynol creadigol

Mae gweithwyr proffesiynol creadigol yn gweithio yn y celfyddydau. Maen nhw yn gallu bod yn artistiaid, yn wneuthurwyr, yn awduron neu'n guraduron.

### Hiliaeth

Mae hiliaeth yn meddwl trin pobl yn annheg neu yn gas oherwydd eu bod nhw yn perthyn i hil arbennig - er enghraifft Du ac Asiaidd.